# LlC25-16

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn yr A4081 North Avenue (Llandrindod, Powys) (Terfyn Cyflymder 30 mya Dros Dro ar gyfer Cerbydau Esempt) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *16 Ebrill 2025* |
| *Yn dod i rym* | *27 Ebrill 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn yn unol â threfniadau a wnaed rhwng Cyngor Sir Powys a Gweinidogion Cymru o dan adran 83(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**1**) sy'n darparu bod y swyddogaethau a roddwyd i Gyngor Sir Powys o dan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**) (Deddf 1984) i'w harfer gan Weinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar y darn o'r ffordd leol a nodir yn erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn oherwydd digwyddiad perthnasol, sef y digwyddiad beicio "Ras Ffordd Sir Faesyfed" sy'n cael ei gynnal ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni ymhellach o dan adran 16A(3) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 nad yw'n rhesymol ymarferol cynnal y digwyddiad uchod ac eithrio ar ffordd. Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ac adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn yr A4081 North Avenue (Llandrindod, Powys) (Terfyn Cyflymder 30 mya Dros Dro ar gyfer Cerbydau Esempt) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 27 Ebrill 2025.

(**1**) 2006 p. 32.

(**2**) 1984 p. 27. Mewnosodwyd adran 16A gan adran 1(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994 (p. 11). Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

# WG25-16

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A4081 North Avenue (Llandrindod Wells, Powys) (Temporary 30 mph Speed Limit for Exempted Vehicles) Order 2025

| | |
|---|---|
| *Made* | *16 April 2025* |
| *Coming into force* | *27 April 2025* |

The Welsh Ministers make this Order pursuant to arrangements made between Powys County Council and the Welsh Ministers under section 83(1) of the Government of Wales Act 2006(**1**) whereby the functions conferred on Powys County Council under section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984(**2**) (the 1984 Act) are to be exercised by the Welsh Ministers.

The Welsh Ministers are satisfied that traffic on the length of the local road set out in article 4 of this Order should be restricted by reason of a relevant event, namely the "Radnorshire Road Race" cycling event, being held on or near the road.

The Welsh Ministers are further satisfied under section 16A(3) of the Road Traffic Regulation Act 1984 that it is not reasonably practicable for the above event to be held otherwise than on a road. The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984 and section 83 of the Government of Wales Act 2006, make this Order.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the A4081 North Avenue (Llandrindod Wells, Powys) (Temporary 30 mph Speed Limit for Exempted Vehicles) Order 2025 and this Order comes into force on 27 April 2025.

(**1**) 2006 c. 32.

(**2**) 1984 c. 27. Section 16A was inserted by the Road Traffic Regulation (Special Events) Act 1994 (c. 11), section 1(1). By virtue of S.I. 1999/672 and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y briffordd leol" ("*the local highway*") yw'r A4081 North Avenue yn Llandrindod, Powys;

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd modur a ddefnyddir gan un o swyddogion awdurdodedig y digwyddiad i gefnogi'r digwyddiad perthnasol ac am resymau'n ymwneud â'i ddiogelwch;

ystyr "cyfnod y digwyddiad" ("*event period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 11:00 o'r gloch ar 27 Ebrill 2025 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "un o swyddogion awdurdodedig y digwyddiad" ("*authorised event official*") yw swyddog sydd wedi ei gymryd ymlaen gan drefnwyr y digwyddiad perthnasol at ddiben hebrwng mewn cerbyd modur y beicwyr sy'n cymryd rhan yn y digwyddiad perthnasol.

**Atal dros dro**

**3.** Mae'r terfyn cyflymder cyffredinol ar gyfer ffyrdd cyfyngedig o dan adran 81(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 wedi ei atal mewn perthynas â cherbydau esempt yn unig ar y darn o'r ffordd leol a nodir yn erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny y mae'r cyfyngiad a bennir yn yr erthygl honno yn weithredol.

**Cyfyngiad**

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y digwyddiad, yrru unrhyw gerbyd esempt yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r briffordd leol sy'n ymestyn o'r arwyddion 20mya sydd gerllaw Mynwent Llandrindod hyd at yr arwyddion 30mya ar y ffordd fynediad i'r gylchfan â Ffordd Cadwallader ac Ystad Ddiwydiannol Ddole Road.

**Cymhwyso**

**5.** Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod para'r Gorchymyn hwn**

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am un diwrnod ar y mwyaf.

**Interpretation**

**2.** In this Order—

"authorised event official" ("*un o swyddogion awdurdodedig y digwyddiad*") means an official engaged by the organisers of the relevant event for the purpose of accompanying by motor vehicle the cyclists taking part in the relevant event;

"event period" ("*cyfnod y digwyddiad*") means that period commencing at 11:00 hours on 27 April 2025 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed;

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any motor vehicle being used by an authorised event official in support of and for reasons of the safety of the relevant event;

"the local highway" ("*y briffordd leol*") means the A4081 North Avenue at Llandrindod Wells, Powys.

**Suspension**

**3.** The general speed limit for restricted roads under section 81(1) of the Road Traffic Regulation Act 1984 is suspended in relation to exempted vehicles only on the length of the local road set out in article 4 of this Order during such times as the restriction specified in that article is in operation.

**Restriction**

**4.** No person shall, during the event period, drive any exempted vehicle at a speed exceeding 30 miles per hour on the length of the local highway that extends from the 20mph signs adjacent to Llandrindod Wells Cemetery to the 30mph signs on the approach to the roundabout with Cadwallader Way and Ddole Industrial Estate Road.

**Application**

**5.** The restriction in article 4 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**6.** The maximum duration of this Order is one day.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru, ar ran Cyngor Sir Powys.

Dyddiedig 16 Ebrill 2025

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers, on behalf of Powys County Council.

Dated 16 April 2025

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Transport
Welsh Government